Y Gyfnewidfa Rhent

Rydym yn meddwl y dylech gael eich gwobrwyo am dalu eich rhent yn rheolaidd

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Experian™

By Social Entrepreneurs For Social Entrepreneurs BIG ISSUE INVEST

CWESTIYNAU CYFFREDIN

Beth yw'r Gyfnewidfa Rhent?

Mae CCG wedi ymuno gyda'r Gyfnewidfa Rhent - ffordd o wella eich sgôr credyd heb orfod cymryd cytundebau credyd newydd.

I wneud hyn byddwn yn rhannu eich manylion talu rhent gyda Experian. Byddwch yn cael cydnabyddiaeth am dalu eich rhent yn rheolaidd, fel mae perchnogion yn cael eu cydnabod am dalu eu morgais bob mis.

Beth yw adroddiad credyd?

Cofnod o'r holl gredyd rydych chi wedi ei ddefnyddio dros y chwe mlynedd diwethaf a sut rydych wedi ei dalu nôl yw adroddiad credyd. Mae eich sgôr yn awgrymu pa mor debygol ydych chi o ad-dalu unrhyw gredyd ac mae benthycwyr yn ei ddefnyddio i benderfynu os ydyn nhw am roi benthyciad i chi. Am fwy o fanylion ewch i **www.experian.co.uk/customer/what-is-a-credit-report.html**.

Bydd data yn cael ei rannu gyda unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata?

Na, ni fydd Experian yn rhannu data personol gyda unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata.

Fydd methu taliad rhent yn stopio fi rhag cael credyd fforddiadwy neu rentu cartref arall?

I'r mwyafrif o bobl mae i'r gwrthwyneb, gan y bydd yn helpu bobl i brofi eu bod yn talu ymrwymiad ariannol bwysig yn rheolaidd.

ASTUDIAETH ACHOS: Prynu peiriant golchi am £250

Heb sgôr credyd neu sgôr credyd sâl

Brighthouse: Talu £602.77 dros gyfnod o 36 mis 69.9% cyfradd gyfrannol flynyddol (APR).



Gyda sgôr credyd da

Argos: Gyda sgôr credyd da, gallwch dalu £250 dros cyfnod o 12 mis neu dalu £360.63 dros 48 mis 29.9% APR.

Undeb Credyd: Talu £446.75 dros gyfnod o 36 mis 42.6% APR.

Ffyrdd o wella eich sgôr credyd

1. Cofrestru i bleidleisio — ewch i **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**
2. Sefydlu cytundeb i dalu hen ddyledion
3. Ceisiwch beidio gwneud taliadau hwyr ar gerdyn credyd
4. Peidiwch a gwneud nifer o geisiadau am gredyd ar yr un pryd
5. Osgoi benthyciadau stepen drws
6. Peidiwch a defnyddio eich cerdyn credyd i godi arian
7. Gwnewch waith ymchwil cyn gwneud cais am gredyd er mwyn ffeindio'r fargen orau

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach cysylltwch â CCG ar **0300 123 8084** neu ewch i **www.ccgwynedd.org**.